# Yr Hwb Chwarae

## Cyflwyniad

Mae Play Radnor yn elusen i blant cefn gwlad, sy'n ymdrechu i ddarparu cyfleoedd safonol ar gyfer chwarae a hamdden i blant a phobl ifanc ym Mhowys. Wedi'i leoli o fewn ei adeilad ei hun – yr Hwb Chwarae, mae'n anelu at wneud Powys yn lle gwell i fyw i blant, pobl ifanc a theuluoedd.

Mae'r Hwb Chwarae wedi wynebu sawl her, yn bennaf y diffyg gwasanaethau sydd ar gael i blant a phobl ifanc ar draws Powys. Mae natur anghysbell cefn gwlad, cysylltiadau trafnidiaeth gwael a diffyg cyfleusterau i gyd yn cyfrannu tuag at blant a phobl ifanc yn methu cymryd rhan yn y gwasanaethau chwarae sydd ar gael ar hyn o bryd.

## Datrysiad

Ateb Play Radnor i gynorthwyo plant a phobl ifanc ym Mhowys oedd creu prosiect a fuasai'n cynorthwyo grwpiau cymorth i rwydweithio, gwella eu darpariaeth a gwneud y grwpiau yn boblogaidd a hysbys, a'u cadw'n gynaliadwy yr un pryd. Nid yn unig roedd y prosiect am edrych ar grwpiau, roeddent hefyd eisiau creu cyfleoedd ar gyfer ymgysylltu, a chynnwys y gymuned.

Roedd Play Radnor hefyd am gynyddu'r cyfleoedd sydd ar gael i chwarae ar draws Powys i gyd, fel y gallai plant a phobl ifanc cael cyfle gwell am fywyd hapusach a chynhyrchiol. Mae sawl gweithgaredd yn ffocysu ar gymunedau ac amgylcheddau trefol, felly roedd Play Radnor am sicrhau eu bod yn cyrraedd cymunedau cefn gwlad ac yn cyflawni anghenion eu cyfranwyr i gyd. Bwriad Play Radnor oedd creu cyfraniad positif i'r weledigaeth hir dymor ar gyfer chwarae ym Mhowys.

## Buddion

Mae buddion prosiect yr Hwb Chwarae wedi creu cyfleoedd newydd a gwell mynediad at chwarae, hamdden a gwasanaethau i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd. Mae'r prosiect wedi datblygu cyfleoedd chwarae a hamdden newydd fel y rhai sydd wedi'u hamlinellu yn y prosiect peilot. (Bibs, Teithiau Cerdded i'r Teulu, Clwb Codio, a gweithgareddau hanner tymor eraill.)

Mae'r Hwb Chwarae hefyd wedi creu cyfleoedd newydd ar gyfer cymryd rhan a datblygu gwasanaethau drwy weithio efo grwpiau a sefydliadau eraill i sefydlu gwasanaethau megis Ioga a Chwarae, Wild Tots, Teen Scheme a Cheeky Monkeys. Rhoddwyd mwy o gyfleoedd i wirfoddolwyr drwy gydol y prosiect hefyd, gan eu bod wedi gallu cymryd rhan yn y grwpiau sydd wedi cael eu trefnu.

Mae Play Radnor a phrosiect yr Hwb Chwarae wedi datblygu dull newydd o weithio drwy bartneriaeth sydd o fudd i blant a phobl ifanc yn yr ardal. Mae'r Hwb yn cynnig

Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas
Llywodraeth Cymru
Welsh Government

lleoliad ar gyfer gwasanaethau a sefydliadau lleol a cenedlaethol i blant, sy'n darparu gwasanaethau cydfuddiannol.  Mae cyfarfodydd rhwydweithiol Cymru gyfan, sesiynau cyswllt teulu, ac ymgynghoriadau efo PAVO a Credu yn ddim ond ychydig o'r sefydliadau a gwasanaethau sydd wedi gwneud defnydd o'r hwb, gan greu partneriaethau gwaith o fewn yr ardal leol.

## Canlyniadau

Mae prosiect yr Hwb Chwarae  wedi cynyddu cynhwysedd Play Radnor ac wedi cyflwyno gwasanaethau i blant a phobl ifanc yn yr Hwb Chwarae ac o fewn cymunedau trefol a chefn gwlad.  Mae'r ehangu yn sgil y gwasanaethau yn golygu eu bod yn medru cynnal ystod ehangach o anghenion, oedrannau a diddordebau plant a phobl ifanc.  Mae cael swyddog datblygu chwarae wedi sicrhau bod amrywiad eang o brosiectau wedi cael eu datblygu, o wasanaethau newydd i blant 0-5 oed fel Bibs, Wild Tots a Play@ the Hub, i brosiectau fel Cheeky Monkeys sydd i blant ag anghenion penodol.

Mae'r Hwb Chwarae  wedi cynnig lle diogel, fforddiadwy, a chyfeillgar i blant, sydd wedi cael ei ddefnyddio gan sefydliadau, unigolion a grwpiau eraill.  Mae'r Swyddog Datblygu Chwarae wedi sicrhau bod grwpiau fel Ioga a Chwarae, Addysg Gartref, a'r clwb codio wedi medru defnyddio'r hwb a manteisio ar y cyfleusterau yr ydym yn eu cynnig.

Rydym hefyd wedi medru cynnig cyfleoedd gwirfoddoli newydd dros ystod eang o weithgareddau o fewn y sefydliad.  Rydym wedi cefnogi gwirfoddolwyr yn ystod  eu hamser gyda ni, drwy gynnig cyngor, hyfforddiant a chymorth i ddatblygu eu sgiliau a gwybodaeth.  Mae gwirfoddolwyr fel y rhai yn Stay and Play a Cheeky Monkeys wedi elwa drwy wirfoddoli efo Play Radnor, gan leihau eu hunigrwydd, rhoi cyfle iddynt wneud ffrindiau newydd ac i gymryd rhan fwy blaengar yn eu cymunedau lleol.  Mae hefyd wedi cyfrannu at gynyddu eu hyder a'u hunan barch.  Mae un o'n gwirfoddolwyr yn dod gyda'i weithiwr cymorth ac mae'n galw i mewn i weld y tîm, yn arolygu'r faniau, a llwytho teganau.  Mae ei weithwyr cymorth i gyd yn dweud wrthym ei fod yn teimlo bod ganddo swydd efo Play Radnor a phwrpas, ac mae'n hoff iawn o ddod i'r hwb.  Iddo fe, mae'r Hwb Chwarae, Play Radnor ac wrth gwrs, ein hen fan, yn rhan bwysig iawn o'i fywyd.

Trwy gydol y prosiect rydym wedi darparu hyfforddiant achrededig ac anffurfiol i wirfoddolwyr, ac i ymarferwyr chwarae a gofal plant o amrywiaeth o leoliadau. Cafodd yr hyfforddiant achrededig – L2APP, ei ddarparu mewn partneriaeth ag Addysg Oedolion Cymru, gan roi hyfforddiant achrededig gwaith chwarae i wirfoddolwyr, gweithwyr gofal plant ac ymarferwyr gwaith chwarae hyd at Lefel 2.

Mae'r prosiect hefyd wedi annog unigolion a grwpiau i ddod at Play Radnor i drafod datblygu gweithgareddau cymunedol a gweld sut fedrwn ni gydweithio i gyflawni hyn. Mae hyn wedi arwain at brosiectau fel y Teen Scheme - prosiect peilot sy'n cynnig gweithgareddau gwyliau i blant o oed 12+ efo anabledd a'u brodyr a chwiorydd.

Gwnaed hyn yn bosib drwy bresenoldeb a chyfraniad y Swyddog Datblygu Chwarae yng nghyfarfodydd yr awdurdod lleol, y CVC lleol a sefydliadau gofal plant eraill, i drafod trafferthion posib ac i edrych ar ffyrdd o ddarganfod atebion.

Rydym hefyd wedi helpu i ddatblygu mentrau newydd drwy ddarparu gwybodaeth, cyngor ac adnoddau i grwpiau ac unigolion. Mae'r swyddog datblygu chwarae wedi cwrdd â chynrychiolwyr o ganolfan gymunedol Tref-y-clawdd a oedd angen mwy o wybodaeth a chyngor ar sut i ddyblygu rhai o'n gwasanaethau o fewn eu cymuned leol. Roeddem yn medru rhoi cyngor iddynt ar gyllido, costio a rhoi gwybodaeth am y prosiectau rydym yn eu darparu a allai weithio'n dda o fewn eu hardal.

Mae'r Hwb Chwarae wedi cael ei defnyddio gan sefydliadau lleol a chenedlaethol i ddarparu ystod eang o weithgareddau, gweithdai a phrosiectau, fel cyfarfodydd Rhwydweithio Cymru gyfan, a gynhelir ddwywaith y flwyddyn gan Chwarae Cymru. Mae'r rhain wedi cynnig y cyfle i ehangu'r cyfathrebu a'r cydweithio sydd rhwng sefydliadau. Mae sefydliadau Chwarae wedi gallu rhannu eu profiadau eu hunain a derbyn cyngor a gwybodaeth am y datblygiadau diweddaraf o fewn y sector gwaith chwarae.

Mae'r Hwb hefyd wedi cynyddu'r cyfleoedd ar gyfer gweithio mewn partneriaeth ar brosiectau o fewn yr Hwb, a gwaith allgymorth o fewn Powys. Mae'r prosiect Wild Tots wedi datblygu mewn partneriaeth efo Wild Tots yn Y Fenni, ac wedi cael llwyddiant yn cynnig sesiynau chwarae awyr agored ar gyfer rhieni/gofalwyr a phlant 0-5 oed. Mae'r prosiect yn anelu at annog teuluoedd i fwynhau'r awyr agored yn fwy aml ac i blant ddatblygu cariad tuag at natur o oedran ifanc. Mae'r swyddog datblygu chwarae hefyd wedi gallu datblygu cysylltiadau efo Bwrdd Iechyd Powys, gan fynychu cyfarfodydd strategaeth gorbwysedd/ysgolion/ysgolion meithrin iach, gan arwain at grant bach i'r sefydliad sy'n mynd tuag at ddarparu sesiynau awyr agored.

## Manylion Cyswllt y Prosiect

Cysylltwch â Rachel Maflin ar rachel.maflin@gmail.com neu ewch i wefan Play Radnor www.playradnor.og.uk

## Manylion Prosiectau

| Data allweddol | Manylion penodol y Prosiect |
| --- | --- |
| Cyflwynwyd gan: | Play Radnor |
| Dyddiad Dechrau: | Awst 2016 |
| Dyddiad Diwedd: | Rhagfyr 2018 |
| Thema LEADER: | Thema 3: Ymchwilio i ffyrdd newydd o ddarparu gwasanaethau lleol heb fod yn statudol |

## Manylion

| Disgrifiad | Swm | % |
| --- | --- | --- |
| Cyfanswm y Gwariant: | £95,677.40 | 100.00% |
| Cyllid y CDG: | £74,584.40 | 77.9540% |
| Arian Cyfatebol: | £21,093.00 | 22.0460% |

arwain
Powys
Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas
Llywodraeth Cymru
Welsh Government